

NOSC 2026 Rhif 169

TRAFFIG FFYRDD

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042
(Cylchfan Mamheilad i Gylchfan
Court Farm, Pont-y-pŵl, Torfaen)
(Gwaharddiadau a Chyfyngiadau
Traffig Dros Dro) 2026

Gwnaed

10 Medi 2026

Yn dod i rym

16 Medi 2026

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4042, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Mamheilad i Gylchfan Court Farm, Pont-y-pŵl, Torfaen) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Medi 2026.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw—

NWSI 2026 No. 169

ROAD TRAFFIC

The A4042 Trunk Road
(Mamhilad Roundabout to Court
Farm Roundabout, Pontypool,
Torfaen) (Temporary Traffic
Prohibitions and Restrictions)
Order 2026

Made

10 September 2026

Coming into force

16 September 2026

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A4042 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A4042 Trunk Road (Mamhilad Roundabout to Court Farm Roundabout, Pontypool, Torfaen) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2026 and this Order comes into force on 16 September 2026.

Interpretation

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 16 Medi 2026 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A4042 Casnewydd i'r Amwythig;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn

- (a) any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A4042 Newport to Shrewsbury trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 16 September 2026 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibitions and restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

6. No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

7. No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

8. No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 10 miles per hour on the length of

gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd modur na chaniatáu i gerbyd modur gael ei ddefnyddio, ac eithrio cerbyd esempt, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 8 yn weithredol.

Atal dros dro

10. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 6, 7, ac 8 yn weithredol.

Cymhwyso

11.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau na'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, a 9 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

12. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

10 Medi 2026

Nicci Hunter

Pennaeth Llywodraethiant a Sierwydd
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro, Terfynau Cyflymder 50 mya, 40 mya a 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o gefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbyttffordd gylchredol Cylchfan

the trunk road specified in the Schedule to this Order.

9. No person may, during the works period, use or permit the use of a motor vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order during such times as the restriction referred to in article 8 is in operation.

Suspension

10. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 6, 7 and 8 are in operation.

Application

11.—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6, 7, 8 and 9 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

Duration of this Order

12. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated

10 September 2026

Nicci Hunter

Head of Governance and Assurance
Welsh Government

SCHEDULE

Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians, Temporary 50 mph, 40 mph and 10 mph Speed Limits and No Overtaking

The length of the A4042 trunk road that extends from its junction with the circulatory carriageway of

Mamheilad hyd at ei chyffordd â cherbyttfordd
gylchredol Cylchfan Court Farm, Pont-y-pŵl,
Torfaen.

Mamhilad Roundabout to its junction with the
circulatory carriageway of Court Farm Roundabout,
at Pontypool, in Torfaen.